

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i Gynghorwyr

Canllaw Byr i'r Cynllun Pensiwn
Llywodraeth Leol i Gynghorwyr
Cymwys yng Nghymru

Medi 2025

Tudalen Cynnwys

Dewis fy mhensiwn	4
Pwynt i'w nodi.....	4
Y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol	4
Pwy all ymuno?	5
Sut ydw i'n cadarnhau fy mod wedi dod yn aelod?.....	5
Faint ydw i'n ei dalu?	5
Faint mae'r Cyngor yn ei dalu?	5
A fedraf i dalu cyfraniadau ychwanegol i gynyddu fy muddion?	6
A fedraf i drosglwyddo pensiwn o gynllun blaenorol i fy nghronfa yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol?.....	6
Rwyf eisoed yn derbyn pensiwn drwy'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol: a wnaiff ailymuno effeithio ar hwnnw?.....	6
Ymddeol	7
Pa bryd allaf i ymddeol?.....	7
Beth yw fy muddion ymddeol?	7
A fedraf i ymddeol yn gynnar?.....	7
A fydd fy mhensiwn a'r cyfandaliad yn llai os byddaf yn ymddeol yn gynnar?.....	7
Beth sy'n digwydd os oes raid imi ymddeol yn gynnar oherwydd afiechyd?.....	8
Beth os ydw i'n dal i weithio ar ôl troi'n 65 oed?	9
Y buddion	10
Faint fydd fy mhensiwn?.....	10
Faint fydd fy nghyfrandaliad?.....	10
A fedraf ildio rhywfaint o fy mhensiwn i gynyddu'r cyfandaliad?	10
Derbyn fy nghronfa Cyfraniadau Ychwanegol Gwirfoddol ar ffurf arian parod	11
Enghraifft o gyfrifo pensiwn a chyfrandaliad	11
Cyflog Cyfartalog Gyrfa	11
Sut eir ati i ail-bennu gwerth fy mhensiwn?	12
Sut gaiff fy mhensiwn ei dalu?	12
Beth os ydw i'n cael swydd arall?	12
Gwarchod fy nheulu.....	13
Pa fuddion a gaiff eu talu os byddaf yn marw yn y swydd?	13
Pa fuddion a gaiff eu talu os ydw i'n marw ar ôl ymddeol a chymryd pensiwn?	13
Peidio â bod yn gynghorydd cyn ymddeol.....	14

A fedraf i optio allan o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i Gynghorwyr?	14
Ad-dalu cyfraniadau	14
Buddion gohiriedig	15
Beth os byddaf farw cyn cael fy muddion gohiriedig?	15
A fedraf i ailymuno â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn y dyfodol?	15
Trosglwyddo fy mhensiwn	16
Pensiynau yng nghyswllt ysgaru neu ddiddymu partneriaeth sifil	17
Cymorth â phroblemau pensiwn	18
At bwy allaf i droi am gymorth gyda chwestiwn neu gŵyn?	18
Y Weithdrefn Ddatrys Anghydfod Mewnol	18
Helpwr Arian	19
Yr Ombwdsmon Pensiynau	19
Y Rheoleiddiwr Pensiynau	20
Sut alla i olrhain hen fuddiannau pensiwn?	20
Mwy o wybodaeth ac ymwadiad	21

Dewis fy mhensiwn

Mae dechrau tynnu'ch pensiwn yn rhywbeth ichi edrych ymlaen ato. Er mwyn sicrhau bod eich pensiwn yn bodloni'ch disgwyliadau, fodd bynnag, mae arnoch angen mynd ati'n awr i gynllunio eich incwm ar ôl ichi ymddeol.

Bydd eich incwm ac unrhyw fuddion ar ben Pensiwn y Wladwriaeth yn dod drwy gynllun pensiwn personol, cynllun pensiwn cyfranddeiliaid neu gynllun pensiwn gwaith fel y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Cynghorwyr).

Pwynt i'w nodi

Yr oedran ieuengaf y gallwch ymddeol o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol neu o fod yn Gynghorydd CPLIL ar hyn o bryd yw 50. Fodd bynnag, bydd angen cytundeb eich cyngor arnoch i ymddeol cyn 55 oed.

Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi y bydd yr oed cynharaf y gallwch dynnu eich pensiwn yn cynyddu o 55 oed i 57 oed o 6 Ebrill 2028. Nid yw hyn yn berthnasol os ydych angen cymryd eich pensiwn yn gynt oherwydd salwch.

Fe allech gael eich gwarchod rhag y cynnydd hwn os gwnaethoch ymuno â'r CPLIL yng Nghymru a Lloegr cyn 4 Tachwedd 2021. Fodd bynnag, dim ond pan fyddwch chi'n tynnu eich pensiwn CPLIL y byddwch chi'n gallu cael eich gwarchod, os yw rheolau'r Cynllun yn caniatáu ichi dynnu eich pensiwn cyn troi'n 57 oed.

Llywodraeth y DU sy'n gosod rheolau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Nid yw wedi ei gadarnhau eto os bydd yn caniatáu i aelodau, sy'n gymwys i gael eu gwarchod, gymryd eu pensiwn CPLIL cyn eu bod yn 57 mlwydd oed o 6 Ebrill 2028.

Lle mae 55 yn cael ei nodi ar weddill y anllaw hon, cofiwch y bydd hyn yn newid i 57 o 6 Ebrill 2028.

Y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Mae'r canllaw hwn yn egluro amodau aelodaeth y cynllun a'r prif fuddion a gewch chi o gyfrannu i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i Gynghorwyr. Mae'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i Gynghorwyr yn gynllun sydd wedi'i ariannu'n statudol. Golyga hynny ei fod yn ddiogel iawn gan fod y buddion wedi'u pennu drwy gyfraith.

Mae'r prif fanteision o fod yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i Gynghorwyr yn cynnwys:

- cyfandaliad pan fyddwch chi'n ymddeol
- pensiwn blyneddol sy'n seiliedig ar eich enillion cyfartalog ar hyd eich gyrfa
- cyfle i gynyddu eich pensiwn trwy dalu cyfraniadau ychwanegol
- ymddeol yn wirfoddol ar ôl troi'n 55 oed
- ymddeol rhwng 50 a 54 oed gyda chaniatâd eich cyngor
- pensiwn afiechyd ar unrhyw oed

- grant sy'n daladwy pan fyddwch chi'n marw
- pensiwn priod neu bartner sifil (yn ogystal ag unrhyw blant cymwys)
- gwerth y pensiwn yn cynyddu i sicrhau ei fod yn ddigonol i dalu costau byw.

Pwy all ymuno?

Mae'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar gael i bob cynghorydd o unrhyw gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru sy'n cael cynnig aelodaeth o'r Cynllun drwy gynllun lwfansau'r cyngor ac sy'n iau na 75 mlwydd oed. Gelwir pobl sy'n cael cynnig aelodaeth o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i Gynghorwyr yn **Gynghorwyr Cymwys**. Os ydych chi wedi cael cynnig i ymaelodi â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i Gynghorwyr, mae'n rhaid ichi benderfynu a fyddwch chi'n talu cyfraniadau i gronni pensiwn. Os penderfynwch chi wneud hynny a llenwi'r ffurflen, fe ddewch chi'n aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i Gynghorwyr ar ddyddiad dechrau'r cyfnod o gyflogaeth y mae'ch cyngor yn derbyn eich ffurflen ynddo.

Sut ydw i'n cadarnhau fy mod wedi dod yn aelod?

Os dymunwch ddechrau talu cyfraniadau i gronni pensiwn yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i Gynghorwyr, mae'n rhaid ichi llenwi'r ffurflen a'i hanfon i adran gyflogau'ch cyngor.

Pan mae'r adran gyflogau'n derbyn eich ffurflen, byddant yn dechrau didynnu cyfraniadau pensiwn o'ch cyflog. Byddant hefyd yn rhoi gwybod i'ch cronfa Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol eich bod wedi ymuno. Bydd eich cronfa bensiynau'n creu cofnod pensiwn ar eich cyfer ac yn anfon pecyn croeso atoch, i gadarnhau'n ffurfiol eich bod yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i Gynghorwyr. Dylech hefyd gadw golwg ar swm y lwfansau a delir ichi, i sicrhau bod eich cyngor yn didynnu'r cyfraniadau.

Faint ydw i'n ei dalu?

Eich cyfraniad ar hyn o bryd yw 6% o'r tâl yr ydych yn ei dderbyn. Fel aelod o CPLIL Cynghorwyr, caiff eich cyfraniadau eu tynnu o'ch lwfansau cyn treth. Mae hynny'n golygu y cewch chi ryddhad trethi ar y cyfraniadau hynny i'ch pensiwn. Felly, er enghraifft, os ydych yn talu treth ar gyfradd o 20%, ni fydd pob £1 a gyfrannwch chi i/r Cynllun ond yn costio 80c net.

Mae cyfyngiadau ar swm y rhyddhad treth sydd ar gael ar gyfraniadau pensiwn. Os bydd gwerth eich cynilion pensiwn yn cynyddu £60,000 neu fwy mewn blwyddyn, uwchlaw'r lwfans blynyddol, mae'n bosib y bydd yn rhaid ichi dalu tâl treth. Ni fydd y lwfans blynyddol yn effeithio ar y mwyafrif o bobl.

Faint mae'r Cyngor yn ei dalu?

Mae'r Cyngor yn talu gweddill y gost o ddarparu eich buddion pensiwn (ar ôl ystyried enillion ar fuddsoddiadau). Bob tair blynedd, mae actwari annibynnol yn cyfrifo faint y dylai'r cyngor ei gyfrannu at y cynllun. Bydd y swm yn amrywio, ond y dybiaeth ar hyn o

bryd yw eich bod yn cyfrannu tua thraean o gostau'r Cynllun a'r cyngor yn cyfrannu'r gweddill.

A fedraf i dalu cyfraniadau ychwanegol i gynyddu fy muddion?

Mae'r cynllun yn cynnwys trefniant sy'n galluogi aelodau i gynyddu eu buddion drwy wneud Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol.

I gael mwy o wybodaeth am Gyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol, ewch i adran [tal](#)u cyfraniadau ychwanegol ar ein gwefan.

Yn ychwanegol, gallwch dalu cyfraniadau i gynllun pensiwn personol neu gynllun pensiwn budd-ddeiliaid.

A fedraf i drosglwyddo pensiwn o gynllun blaenorol i fy nghronfa yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol?

Nid yw rheolau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i Gyngorwyr yn caniatáu ichi drosglwyddo pensynau blaenorol o gynlluniau eraill nac ychwaith o gronfa arall yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, hyd yn oed.

Os oes gennych bensiwn gohiriedig sy'n deillio o gyfnod yn y gorffennol pan fuoch chi'n aelod o'r un gronfa yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i Gyngorwyr, gallwch ddewis cyfuno'r hen aelodaeth â'ch cyfnod cyfredol fel cyngorydd. Mae'n rhaid ichi ddewis gwneud hynny cyn pen 12 mis wedi ichi ailymuno â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i Gyngorwyr. Mae gan y cyngor hawl i ymestyn y cyfnod hwnnw os yw'n dymuno. Holwch eich cyngor am ei bolisi yn hyn o beth.

Rwyf eisoes yn derbyn pensiwn drwy'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol: a wnaiff ailymuno effeithio ar hwnnw?

Os ydych eisoes yn cael pensiwn o gronfa yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ac yna'n dod yn gyngorydd, mae'n rhaid i chi hysbysu'r Gronfa honno:

- o'ch swydd newydd; ac
- a ydych yn talu cyfraniadau i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i Gyngorwyr ai peidio.

Yna bydd eich Cronfa'n cadarnhau a oes angen iddynt ostwng y pensiwn y mae'n ei dalu ichi.

Ymddeol

Pa bryd allaf i ymddeol?

Gallwch ymddeol a derbyn eich buddion pensiwn o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i Gynghorwyr yn llawn unwaith y byddwch chi'n troi'n 65 mlwydd oed. Mae rheolau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i Gynghorwyr hefyd yn caniatáu talu buddion eich pensiwn yn gynnar.

Beth yw fy muddion ymddeol?

Pan fyddwch chi'n ymddeol fe gewch chi bensiwn a chyfandaliad gan y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i Gynghorwyr. Pan fyddwch chi'n cyrraedd Oedran Pensiwn y Wladwriaeth, efallai y byddwch hefyd yn derbyn pensiwn ymddeol y wladwriaeth os ydych wedi talu cyfraniadau Yswiriant Gwladol gydol eich bywyd gwaith. I gael mwy o wybodaeth am Bensiwn y Wladwriaeth, ewch i:

<https://www.gov.uk/gwirio-eich-pensiwn-y-wladwriaeth>

A fedraf i ymddeol yn gynnar?

Os ydych chi wedi bod yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i Gynghorwyr am gyfanswm o dri mis o leiaf, gallwch ymddeol o'ch swydd a derbyn buddion eich pensiwn r unrhyw adeg wedi ichi droi'n 55 oed. Os ydych chi rhwng 50 a 55, efallai y bydd modd ichi ymddeol o'ch swydd a chael eich buddion ar unwaith, ond mae'n rhaid i'ch cyngor roi caniatâd ar gyfer hynny. Y cyngor yn unig sydd i benderfynu hynny, ac mae'n rhaid iddo sôn amdano yn ei ddatganiad polisi. Os yw'ch cyngor yn cydsynio i dalu eich buddion cyn ichi droi'n 55 mlwydd oed, gall hyn arwain at dâl treth ychwanegol ar eich buddion.

A fydd fy mhensiwn a'r cyfandaliad yn llai os byddaf yn ymddeol yn gynnar?

Os ydych chi'n ymddeol cyn ichi droi'n 65 mlwydd oed, bydd eich buddion o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i Gynghorwyr yn llai oherwydd eu talu'n gynnar a'r ffaith y bydd eich pensiwn yn daladwy am gyfnod hwy. Cyfrifir y gostyngiad ar sail cyfarwyddyd Adran Actiwari'r Llywodraeth. Mae'r gostyngiad yn seiliedig ar hyd y cyfnod (mewn blynnyddoedd a dyddiau) pan fyddwch chi'n ymddeol yn gynnar; er enghraifft, y cyfnod rhwng talu'ch pensiwn a'ch pen-blwydd yn 65 oed. Po gynharaf yr ydych chi'n ymddeol, po fwyaf fydd y gostyngiad. Pennir gostyngiadau ar y graddfeydd canlynol ar hyn o bryd:

Nifer y Blynyddoedd y Telir eich Pensiwn yn Gynnar	Gostyngiad yn y Pensiwn Blynyddol	Gostyngiad yn y Cyfandaliad Awtomatig
0	0%	0%
1	4.9%	1.7%
2	9.3%	3.3%
3	13.5%	4.9%
4	17.4%	6.5%
5	20.9%	8.1%
6	24.3%	9.6%
7	27.4%	11.1%
8	30.3%	12.6%
9	33.0%	14.1%
10	35.6%	15.5%

Os ydych chi'n ymddeol yn gynnar a chwithau wedi cyfrannu i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i Gynghorwyr ar 30 Medi 2006 neu cyn hynny, efallai y bydd eich holl fuddion wedi'u gwarchod rhag unrhyw ostyngiad (os ydych chi'n aelod gwarchodedig gan y rheol 85 mlynedd). Holwch eich cronfa bensiynau i gael ychwaneg o wybodaeth am y rheol 85 mlynedd.

Sylwer y gall eich cyngor gytuno i beidio â gostwng eich buddion am resymau tosturiol. Penderfyniad i'r cyngor yn unig yw hynny, ond gallwch holi beth yw'r polisi ar hyn o bryd.

Os ydych chi'n ymddeol yn wirfoddol cyn ichi droi'n 65 oed, nid ydych yn gorfod derbyn eich buddion pensiwn ar unwaith. Gallwch ddewis eu gohirio a chael y buddion yn ddiweddarach. Fe gewch chi eglurhad o bensiynau gohiriedig ar [dudalen 15](#) o'r canllaw hwn.

Beth sy'n digwydd os oes raid imi ymddeol yn gynnar oherwydd afiechyd?

Os ydych chi wedi bod yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i Gynghorwyr am gyfanswm o dri mis o leiaf a bod ymarferydd meddygol y mae'r awdurdod gweinyddu wedi'i gymeradwyo'n ardystio eich bod yn barhaol (nes eich pen-blwydd yn 65 oed) yn methu â chyflawni dyletswyddau'ch swydd yn effeithlon oherwydd afiechyd neu wendid corfforol neu feddyliol, fe gewch chi eich pensiwn a'r cyfandaliad ar unwaith. Rhaid i'r ymarferydd

meddygol fod wedi cymhwyso ym maes iechyd galwedigaethol ac ni ddylai fod wedi ymdrin â'ch achos o'r blaen.

Cyfrifir pensiynau a chyfandaliadau ar sail afiechyd yn yr un modd ag y nodir yn y rhan o'r canllaw hwn sy'n sôn am **fuddion**, heblaw bod y cyfrifiad yn seiliedig ar gyfnod hwy fel aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i Gynghorwyr os buoch chi'n aelod am gyfanswm o bum mlynedd neu fwy.

Mae'r tabl isod yn dangos faint y bydd yn cynyddu.

Cyfanswm aelodaeth a ddyfernir	Cyfanswm aelodau ar ôl y cynnydd
Llai na 5 mlynedd	Gwir gyfanswm yn unig
Rhwng 5 a 10 mlynedd	Dyblu'r cyfanswm aelodaeth
Rhwng 10 a 13 1/3 mlynedd	Codi'r cyfanswm aelodaeth i 20 mlynedd
Mwy na 13 1/3 o flynyddoedd	Cynyddu'r cyfanswm aelodaeth 6 2/3 blynedd

Rhaid i gyfanswm eich aelodaeth, fodd bynnag, beidio â bod yn fwy na'r cyfanswm y byddech wedi'i gronni pe byddech wedi dal i dalu cyfraniadau pensiwn nes ichi droi'n 65 oed. Ni fydd eich buddion pensiwn yn cynyddu os dyfarnwyd pensiwn afiechyd ichi eisoes drwy'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Os yw'r cyngor yn fodlon bod eich disgwyliad oes yn llai na blwyddyn o'r dyddiad rydych chi'n ymddeol, gellir talu'r pensiwn fel un cyfandaliad gwerth pum gwaith cymaint â swm y pensiwn blyneddol. Wedi hynny ni fydd unrhyw bensiwn blyneddol yn daladwy.

Beth os ydw i'n dal i weithio ar ôl troi'n 65 oed?

Os ydych chi'n dal ati yn eich swydd ar ôl ichi droi'n 65 oed, byddwch yn dal i dalu cyfraniadau i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i Gynghorwyr ac yn cronni ychwaneg o fuddion. Gallwch dderbyn eich pensiwn pan fyddwch chi'n ymddeol neu'r diwrnod cyn ichi droi'n 75 oed, p'un bynnag a ddaw gyntaf. Os ydych chi'n tynnu'ch pensiwn ar ôl ichi droi'n 65 oed, bydd y pensiwn rydych chi wedi'i gronni nes roeddech chi'n 65 yn cynyddu gan y bydd yn daladwy am lai o amser. Rhaid talu'ch pensiwn cyn ichi droi'n 75 oed.

Y buddion

Faint fydd fy mhensiwn?

Mae eich pensiwn yn seiliedig ar gyfanswm eich cyfnod aelodaeth yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a'ch cyflog ar gyfartaledd yn ystod eich gyrfa. Mae'r enghraifft isod yn dangos sut y cyfrifir eich pensiwn blynyddol trwy rannu eich cyflog cyfartalog â 80 a lluos hynny â chyfanswm eich cyfnod aelodaeth.

Faint fydd fy nghyfundaliad?

Bydd y cyfundaliad a delir ichi'n awtomatig pan fyddwch chi'n ymddeol yn dair gwaith cymaint â gwerth eich pensiwn blynyddol. Fel eich pensiwn, mae'n seiliedig ar gyfanswm eich cyfnod aelodaeth a'ch cyflog ar gyfartaledd yn ystod eich gyrfa. Cyfrifir eich cyfundaliad fel 3/80 o'ch cyflog cyfartalog yn ystod eich gyrfa ar gyfer pob blwyddyn o gyfanswm eich aelodaeth. Yn fuan cyn i chi ddechrau cael eich buddion, gallwch gyfnewid rhywfaint o'ch pensiwn am gyfundaliad mwy.

Telir y cyfundaliad yn ddi-dreth i'r rhan fwyaf o aelodau, ond mae terfyn ar faint o arian parod di-dreth y gallwch ei gymryd o gynlluniau pensiwn y DU. Mae Cyllid a Thollau EF yn rhoi terfyn ar faint o gyfundaliad di-dreth y gallwch ei gymryd pan fydd eich pensiwn yn cael ei dalu i chi. Gelwir y terfyn hwn yn lwfans cyfundaliad. Ar hyn o bryd, y cyfundaliad mwyaf yw'r isaf o'r canlynol:

- 25% o werth cyfalaf eich buddion
- £268,275*
- £268,275* yn llai na chyfanswm y cyfundaliadau rydych chi wedi'u cymryd eisoes

*Os oes gennych chi warchodaeth Lwfans Oes ddilys, o bosibl y gallech gymryd cyfundaliad sy'n fwy na £268,275.

Bydd yn gyfundaliad di-dreth fel arfer, ond os ewch chi dros derfyn y lwfans cyfundaliad, bydd rhaid i chi dalu treth ar y swm uwchlaw'r terfyn ar eich cyfradd ymylol.

A fedraf ildio rhywfaint o fy mhensiwn i gynyddu'r cyfundaliad?

Pan fyddwch chi'n ymddeol, gallwch gyfnewid rhywfaint o'ch pensiwn am gyfundaliad untro. Bydd yn gyfundaliad di-dreth fel arfer ac yn seiliedig ar derfynau lwfansau cyfundaliadau Cyllid a Thollau EF a eglurir uchod. Am bob £1 o bensiwn blynyddol rydych chi'n ei ildio, fe gewch chi gyfundaliad o £12.

Mae'n rhaid ichi fynegi eich dewis i gymryd cyfundaliad ychwanegol yn ysgrifenedig cyn y telir eich buddion. Pan fyddwch chi'n ymddeol, fe gewch chi becyn ymddeol gan eich cronfa bensiynau. Bydd yn manylu ynghylch uchafswm y cyfundaliad ac isafswm y pensiwn blynyddol y gallwch ei dderbyn. Yn y pecyn hefyd bydd gwybodaeth am eich symiau pensiwn pe na fydddech yn dymuno cyfnewid unrhyw bensiwn blynyddol am gyfundaliad ychwanegol.

Mae'n bwysig eich bod yn cysylltu â'ch cronfa bensiynau beth amser cyn dyddiad eich ymddeoliad os ydych yn dymuno cael amcangyfrif o'ch pensiwn i'w rannu ag ymgynghorydd ariannol, fel bod gennych ddigon o amser i bwysu a mesur eich dewisiadau.

Bydd eich pensiwn yn gostwng os gofynnwch am gyfnewid rhan ohono am gyfandaliad. Os penderfynwch chi gyfnewid rhan o'ch pensiwn am gyfandaliad, ni fydd hynny'n effeithio ar werth hirdymor pensiwn priod, partner sifil neu blentyn yn y dyfodol.

Derbyn fy nghronfa Cyfraniadau Ychwanegol Gwirfoddol ar ffurf arian parod

Os talwch chi Gyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i Gynghorwyr, efallai y gallwch gymryd hyd at 100% o werth eich Cyfraniad Gwirfoddol Ychwanegol ar ffurf cyfandaliad di-dreth pan fyddwch chi'n ymddeol. I wneud hynny, mae'n rhaid ichi ei gymryd ar yr un pryd â'ch buddion pensiwn drwy'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i Gynghorwyr. Hefyd, dim ond 100% o werth eich cronfa Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol fel arian parod di-dreth y gallwch ei gymryd os nad yw cyfandaliad eich CPLIL i Gynghorwyr, **ynghyd** â gwerth eich cronfa CGY, yn mynd dros y derfyn lwfansau cyfandaliad ar gyfer cymryd arian parod di-dreth ar draws eich holl bensiynau.

I gael mwy o wybodaeth am eich opsiynau, cysylltwch â'ch Cronfa Bensiynau.

Enghraifft o gyfrifo pensiwn a chyfandaliad

Wrth ymddeol yn 65 mlwydd oed, mae gan yr aelod hwn o'r Cynllun gyfanswm o 10 mlynedd a 204 diwrnod o aelodaeth a chyflog cyfartalog o £12,500.

Pensiwn blynyddol

$10/204 \div 80 \times £12,500 = £1,649.83$ 80fedau'r pensiwn blynyddol

Cyfandaliad untro

$£1,649.83 \times 3 = £4,949.49$

Cyflog Cyfartalog Gyrfa

Dyma'r cyflog rydych chi wedi'i ennill am bob blwyddyn neu ran o flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth (ac eithrio'ch cyflog am y flwyddyn olaf).

Cyfrifir eich cyfartaledd cyflog gyrfa ar sail yr holl dâl neu gyflog rydych chi wedi talu cyfraniadau pensiwn ohono. Mae'r swm yn cynyddu yn ôl costau byw hefyd. Defnyddir y Mynegai Prisiau Manwerthu wrth ail-bennu gwerth eich cyfartaledd cyflog gyrfa.

Yna, rhennir cyfanswm terfynol y cyflog yr ail-bennwyd ei werth bob blwyddyn â chyfanswm y blynyddoedd a blynyddoedd rhannol ac mae hynny'n dod i'ch cyfartaledd cyflog gyrfa. Defnyddid hwnnw wedyn i gyfrifo eich buddion pensiwn.

Enghraifft:

Cyflog Blwyddyn 1 £9,400	x cynnydd costau byw 1.12	= £10,528
Cyflog Blwyddyn 2 £9,600	x cynnydd costau byw 1.08	= £10,368
Cyflog Blwyddyn 3 £9,900	x cynnydd costau byw 1.05	= £10,395
Cyflog Blwyddyn 4 £10,400	x cynnydd costau byw 1.02	= £10,608
Cyflog Blwyddyn 5 £11,000	x cynnydd costau byw 1.00	= £11,000
	Cyfanswm Cronedig	= £52,899
	Cyflog Cyfartalog Gyrfa (£52,899 ÷ 5 Mlynedd)	= £10,579.80

Sut eir ati i ail-bennu gwerth fy mhensiwn?

Ar ôl i aelodau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol droi'n 55 oed, ail-bennir gwerth y pensiynau sy'n daladwy iddynt yn unol â'r mynegai costau byw priodol. Y Mynegai Prisiau Defnyddwyr yw hwnnw ar hyn o bryd.

Os ydych chi'n ymddeol pan rydych chi'n iau na 55 oed, ychwanegir y swm sydd wedi cronni oherwydd chwyddiant ers ichi ymddeol pan fyddwch chi'n troi'n 55 oed.

Ail-bennir gwerth pensiynau afiechyd bob blwyddyn ar sail y mynegai costau byw priodol, faint bynnag yw oedran yr aelod.

Sut gaiff fy mhensiwn ei dalu?

Telir eich pensiwn bob mis yn syth i'ch cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu. Gellir gwneud trefniadau i dalu'ch pensiwn i gyfrif tramor os penderfynwch chi allfudo. Fe gewch chi ychwaneg o wybodaeth am sut gaiff eich pensiwn ei dalu pan fyddwch chi'n ymddeol.

Beth os ydw i'n cael swydd arall?

Os ydych chi'n ymddeol ac yna'n dychwelyd i swydd arall mewn Llywodraeth Leol neu sefydliad arall sy'n defnyddio'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, efallai y caiff eich pensiwn ei ostwng neu'i atal yn unol â'r polisi y mae'ch awdurdod gweinyddu wedi'i fabwysiadu. Yr awdurdod gweinyddu'n unig sydd i benderfynu hynny ac mae'n rhaid iddo fod wedi cyhoeddi ei bolisi. Holwch am ychwaneg o fanylion.

Gwarchod fy nheulu

Pa fuddion a gaiff eu talu os byddaf yn marw yn y swydd?

Os ydych chi'n marw yn y swydd ac yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i Gynghorwyr, telir y buddion isod os bodlonir yr amodau a nodir yn y canllaw hwn:

- Grant gwerth dwywaith cymaint â'ch cyfartaledd cyflog gyrfa ar ôl ichi farw, ni waeth am ba hyd y buoch chi'n aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i Gynghorwyr, cyn belled â'ch bod chi'n iau na 75 pan fyddwch chi farw.
- Pensiwn priod neu bartner sifil:
 - Pensiwn tymor byr sy'n hafal i'ch cyfartaledd cyflog gyrfa, a delir am dri mis yn dilyn eich marwolaeth. Gellir ei dalu am chwe mis os yw un neu fwy o blant cymwys yng ngofal y partner sy'n dal yn fyw.
 - Os buoch chi'n cyfrannu i'r Cynllun am dri mis neu fwy, dechreuir talu pensiwn hirdymor pan ddaw'r pensiwn tymor byr i ben. Bydd hwnnw fel arfer yn hafal i hanner y pensiwn y byddech wedi'i dderbyn pe byddech wedi ymddeol yn gynnar oherwydd afiechyd ar ddyddiad eich marwolaeth.
- Pensiynau i blant cymwys. Holwch eich Cronfa Bensiynau i gael ychwaneg o wybodaeth.

Pa fuddion a gaiff eu talu os ydw i'n marw ar ôl ymddeol a chymryd pensiwn?

Os ydych chi'n marw wedi ichi ymddeol a chithau'n derbyn pensiwn o'ch Cronfa Bensiynau, efallai y bydd y buddion isod yn daladwy. Mae'n rhaid i'ch priod, perthynas agosaf neu'r sawl sy'n ymdrin â'ch ystâd hysbysu'ch Cronfa Bensiynau o ddyddiad eich marwolaeth ar unwaith. Fel arall gellid talu gormod o bensiwn.

- Bydd grant yn daladwy wedi ichi farw os bydd hynny'n digwydd yn ystod pum mlynedd gyntaf eich pensiwn a'ch bod chi'n iau na 75 pan fyddwch chi farw. Bydd y swm sy'n daladwy'n werth pum gwaith cymaint â'ch pensiwn blyneddol, namyn y swm o bensiwn a dalwyd eisoes nes ichi farw
- Pensiwn priod neu bartner sifil:
 - Pensiwn tymor byr a delir am dri mis yn dilyn eich marwolaeth. Gellir ei dalu am chwe mis os yw un neu fwy o blant cymwys yng ngofal y goroeswr. Gwerth y pensiwn tymor byr yw'r swm mwyaf o'r canlynol:
 1. Y pensiwn yr oeddech chi'n ei gael; neu
 2. Y pensiwn y byddech wedi'i gael, heb gyfrif unrhyw ostyngiad oherwydd ymddeol yn gynnar, neu'r cyfandaliad a gawsoch chi os bu ichi ymddeol oherwydd afiechyd gyda disgwyliad oes o lai na blwyddyn.
 - Bydd pensiwn hirdymor yn dechrau ar ôl i'r pensiwn tymor byr ddod i ben. Mae'r pensiwn hirdymor fel arfer yn werth hanner y swm mwyaf o'r canlynol:
 1. Y pensiwn yr oeddech chi'n ei gael; neu
 2. Y pensiwn y byddech wedi'i gael, heb gyfrif unrhyw ostyngiad oherwydd ymddeol yn gynnar, neu unrhyw swm o bensiwn a

gyfnewidiodh chi am gyfandaliad ychwanegol, neu'r cyfandaliad a gawsoch chi os bu ichi ymddeol oherwydd afiechyd gyda disgwyliad oes o lai na blwyddyn.

- Pensiynau i blant cymwys. Holwch eich Cronfa Bensiynau i gael ychwaneg o wybodaeth.

Os priodoch chi ar ôl ymddeol oherwydd afiechyd parhaol, ni fydd pensiwn y partner sy'n goroesi ond yn werth hanner eich pensiwn sylfaenol. Ni fydd yn cynnwys, er enghraifft, unrhyw swm ychwanegol a gawsoch o ganlyniad i afiechyd. Os ffurfioch chi bartneriaeth sifil ar ôl ymddeol, bydd pensiwn eich partner sifil yn werth hanner eich pensiwn chi.

Ail-bennir gwerth pensiynau gwŷr a gwragedd priod, partneriaid sifil a phlant bob blwyddyn ar sail y mynegai costau byw priodol, beth bynnag yw eu hoedran.

Mae pensiynau gwŷr a gwragedd priod a phartneriaid sifil yn daladwy am oes, hyd yn oes os yw'ch priod neu bartner sifil yn ailbriodi, ffurfio partneriaeth sifil newydd neu'n cyd-fyw â phartner newydd.

Mae'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i Gynghorwyr yn caniatáu ichi ddatgan i bwy y dymunwch i'r Cynllun dalu unrhyw grant wedi ichi farw. Gallwch gyfleu eich dymuniadau i'ch Cronfa Bensiynau drwy lenwi ffurflen Mynegi Dymuniad. Fe wnaiff eich Cronfa Bensiynau ddarparu'r ffurflen hon ichi. Dim ond awdurdod gweinyddu'r Cynllun, fodd bynnag, sydd i benderfynu pwy ddylai dderbyn unrhyw grant marwolaeth.

Peidio â bod yn gynghorydd cyn ymddeol

A fedraf i optio allan o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i Gynghorwyr?

Gallwch roi'r gorau i dalu cyfraniadau i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i Gynghorwyr ar unrhyw adeg drwy ofyn i'ch Cronfa Bensiynau am ffurflen optio allan, ei llenwi a'i hanfon i adran gyflogau'ch cyngor. Daw'ch penderfyniad i optio allan i rym ar ddiwedd y cyfnod talu y rhwch chi hysbysiad ynddo (oni bai bod eich hysbysiad yn pennu dyddiad diweddarach). Argymhellir eich bod yn ceisio cyngor ariannol cyn optio allan.

Ad-dalu cyfraniadau

Os ydych chi'n ymadael a'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i Gynghorwyr wedi bod yn aelod am lai na thri mis, gallwch adennill eich cyfraniadau namyn didyniad am dreth ac unrhyw gostau'n deillio o brynu aelodaeth ichi eto yng Nghynllun Ail Bensiwn y Wladwriaeth. Fel arall, gallwch ddewis gohirio'ch penderfyniad nes ichi ailymuno â'r un gronfa yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol fel cynghorydd (yng Nghymru), yn ymuno â chynllun pensiwn newydd neu'n dymuno adennill eich cyfraniadau.

Nid oes modd ad-dalu cyfraniadau os oes gennych eisoes fuddion yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, bod hynny yng Nghymru neu Loegr.

Buddion gohiriedig

Os ydych wedi bod yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i Gynghorwyr am gyfanswm o dri mis o leiaf, bydd gennych hawl i adael y buddion rydych chi wedi'u cronni yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i Gynghorwyr. Cyfrifir eich pensiwn a'ch cyfandaliad yn yr un modd a nodir yn yr adran ynglŷn â **buddion**, sy'n seiliedig ar gyfanswm hyd eich aelodaeth yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i Gynghorwyr nes ichi roi'r gorau i dalu cyfraniadau pensiwn. Gelwir hynny'n fuddion gohiriedig.

Mae buddion gohiriedig yn daladwy pan fyddwch chi'n troi'n 65 oed (oni bai eich bod yn dewis gohirio eu talu y tu hwnt i'r oedran hwnnw). Fodd bynnag, gellir dechrau eu talu ar unrhyw oedran cyn ichi droi'n 65 oed os ydych chi'n ymddeol oherwydd afiechyd, heb unrhyw ostyngiad.

Os dymunwch, gallwch ddewis derbyn eich buddion yn gynnar:

- pan rydych chi rhwng 50 a 55 oed, gyda chaniatâd eich cyngor, neu
- pan rydych chi'n troi'n 55 oed neu'n ddiweddarach, heb orfod cael caniatâd eich cyngor.

Efallai y bydd y buddion a delir cyn ichi droi'n 65 oed (ac eithrio buddion a delir oherwydd afiechyd parhaol) yn llai oherwydd eu talu'n gynt a'r ffaith y bydd eich pensiwn yn daladwy'n hwy.

Beth os byddaf farw cyn cael fy muddion gohiriedig?

Os byddwch chi farw tra bod eich buddion wedi'u gohirio, telir eich cyfandaliad ymddeol ar ffurf grant wedi ichi farw. Mae'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i Gynghorwyr yn caniatáu ichi ddatgan i bwy y dymunwch i'r Cynllun dalu unrhyw grant wedi ichi farw. Fe wnaiff eich Cronfa Bensiynau ddarparu'r ffurflen hon ichi. Dim ond awdurdod gweinyddu'r Cynllun, fodd bynnag, sydd i benderfynu pwy ddylai dderbyn unrhyw grant marwolaeth.

Bydd pensiwn hirdymor unrhyw briod (boed o'r un rhyw neu wahanol) neu bartner sifil yn daladwy ar yr adeg hon hefyd. Bydd y pensiwn a delir i briod neu bartner sifil yn werth hanner eich pensiwn gohiriedig.

Bydd pensiynau hirdymor plant yn daladwy hefyd, ar yr amod bod y plant yn dal yn gymwys wedi ichi farw.

A fedraf i ailymuno â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn y dyfodol?

Os ydych chi'n optio allan o gyfrannu i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i Gynghorwyr unwaith, gallwch ailymuno ar unrhyw adeg os ydych chi'n dal yn gynghorydd cymwys. Os ydych chi'n optio allan o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i Gynghorwyr fwy nag unwaith, mae'n rhaid ichi ddewis ailymuno â'r cynllun cyn pen tri mis wedi ichi ddechrau bod yn gynghorydd cymwys at gyngor arall yng Nghymru neu fel arall, ni chewch ailymuno â'r

Cynllun ond os yw'ch cyngor yn caniatáu hynny. Holwch eich cyngor am ei bolisi yn hyn o beth.

Trosglwyddo fy mhensiwn

Os ydych chi'n ymadael â'r cynllun llai na blwyddyn cyn eich oedran ymddeol arferol, gallwch drosglwyddo swm o arian parod sy'n hafal i'ch buddion pensiwn i gynllun pensiwn gwaith arall (ar yr amod ei fod yn fodlon ei dderbyn ac yn gallu gwneud hynny), i gynllun pensiwn personol, i bolisi yswiriant 'prynu allan' neu i gynllun pensiwn cyfranddeiliaid.

(Ni allwch drosglwyddo pensiwn i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yng Nghymru na Lloegr oni bai eich bod yn cyfranogi eto o'r un gronfa fel aelod sy'n gynghorydd).

Mae'r dull o gyfrifo'r swm o arian parod sy'n hafal i'ch buddion pensiwn yn cydymffurfio â rheolau Deddf Cynlluniau Pensiwn 1993 ac mae unrhyw werth a bennir wedi'i warantu am dri mis.

Os ydych yn ystyried trosglwyddo'ch buddion neu beidio, gwnewch yn siŵr fod gennych yr holl wybodaeth am y naill gynllun pensiwn a'r llall fel y gallwch eu cymharu. Er enghraifft, manylion gwerth eich buddion yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i Gynghorwyr a manylion gwerth eich buddion yn y cynllun pensiwn newydd, pe byddech yn eu trosglwyddo. Wrth ichi bwysu a mesur eich dewisiadau, cofiwch fod eich buddion yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i Gynghorwyr yn sicr o gynyddu yn ôl costau byw. Mae trosglwyddo'ch hawliau pensiwn yn benderfyniad o bwys, fodd bynnag, ac efallai y byddai'n werth ichi geisio cymorth gan ymgynghorydd ariannol annibynnol cyn ichi benderfynu trosglwyddo'ch pensiwn gohiriedig i gynllun pensiwn personol, cynllun pensiwn cyfranddeiliaid, polisi yswiriant prynu allan neu gynllun prynu arian gan gyflogwr, gan mai chi a fydd yn ysgwyddo'r holl risg sydd ynghlwm wrth y buddsoddiadau, a fedrai gael effaith sylweddol ar eich buddion pensiwn yn y dyfodol.

Mae'n rhaid ichi gael cyngor ariannol annibynnol addas cyn trosglwyddo'ch pensiwn o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i Gynghorwyr (os bernir bod y buddion yn rhai 'wedi'u diogelu') i drefniant arall y bernir ei fod yn cynnig 'buddion hyblyg' (er enghraifft, y buddion hyblyg hynny sy'n rhan o gynllun cyfraniadau diffiniedig). Mae hynny'n ofyniad cyfreithiol os yw eich holl fuddion yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i Gynghorwyr (ac eithrio unrhyw gyfraniadau ychwanegol gwirfoddol) yn werth mwy na £30,000 o'u trosglwyddo ar ffurf arian parod.

Pensiynau yng nghyswllt ysgaru neu ddiddymu partneriaeth sifil

Yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i Gynghorwyr, os ydych chi'n ysgaru neu os diddymir eich partneriaeth sifil:

- Ni fydd eich cynbartner yn gymwys i gael pensiwn partner sy'n goroesi os byddwch chi'n marw o'u blaenau nhw.
- bydd pensiynau plant yn dal yn daladwy. Nid yw ysgaru neu ddiddymu partneriaeth sifil yn effeithio ar y rhain.
- Os ydych wedi datgan yr hoffech chi fod eich cynbartner yn derbyn unrhyw grant sy'n daladwy pan fyddwch chi farw drwy lenwi ffurflen mynegiad o ddymuniad grant marwolaeth a'i chyflwyno, bydd y trefniant hwnnw'n aros yr un fath oni bai eich bod yn ei newid. (Gall y Llys, fodd bynnag, wneud Gorchymyn Clustnodi sy'n datgan y bydd unrhyw grant marwolaeth yn llwyr neu'n rhannol daladwy i'ch cyn-bartner).

Mewn achosion o ysgaru, gwahaniad barnwrol neu ddiddymu priodasau neu ddaduno neu ddiddymu partneriaeth sifil, mae'n rhaid ichi gael gwybod gan eich cronfa bensiynau beth yw gwerth eich buddion pensiwn o'u trosi i arian parod. Bydd y Llys yn cymryd hynny i ystyriaeth wrth bennu setliad yr ysgariad neu ddiddymiad. (Wrth ysgaru neu ddiddymu perthynas yn yr Alban, dim ond yr hawliau pensiwn a gronnwyd yn ystod y briodas / partneriaeth sifil a gaiff eu cymryd i ystyriaeth).

Gallai'r Llys osod gwerth eich hawliau pensiwn yn erbyn eich asedau ariannol eraill yn setliad yr ysgariad / diddymiad neu wneud Gorchymyn Rhannu Pensiwn neu Orchymyn Clustnodi ar gyfer eich pensiwn.

Os yw'r Llys yn gwneud Gorchymyn Clustnodi, efallai y bydd y Gorchymyn hwnnw'n datgan y dylai eich cyn-bartner dderbyn un o'r buddion isod, neu gyfuniad ohonynt, pan ddaw eich buddion yn daladwy:

- eich pensiwn yn llwyr neu'n rhannol (nid yw hynny'n berthnasol mewn achosion ysgariad / diddymiad yn yr Alban)
- y cyfandaliad a roddir fel grant ymddeol, yn llwyr neu'n rhannol
- unrhyw gyfandaliad a delir, yn llwyr neu'n rhannol, os byddwch chi farw.

Os gwneir Gorchymyn Clustnodi ar gyfer taliadau pensiwn ond nid cyfandaliadau (mae rhai Gorchymynion yn mynnu fel arall), fe'i di-rymir yn awtomatig os yw eich cyn-bartner yn ailbriodi neu'n ffurfio partneriaeth sifil newydd. Os bydd hynny'n digwydd, byddech chi'n cael eich holl bensiwn yn ôl. Byddai taliadau pensiwn i'ch cyn-bartner yn dod i ben pan fyddwch chi farw.

Os yw'r Llys yn gwneud Gorchymyn Rhannu Pensiwn (neu os ydych chi'n destun cytundeb cymwys (qualifying agreement) yn yr Alban), trosglwyddir rhan o'ch buddion pensiwn i'ch cyn-bartner.

Bydd eich pensiwn, eich cyfandaliad a phensiwn y partner sy'n goroesi'n gostwng yn unol â hynny (ond nid pensiynau plant). Bydd gan eich cyn-bartner fuddion pensiwn yn eu rhinwedd eu hunain, a byddant yn gallu:

- eu gadael yn y cynllun i'w talu pan gyrhaeddir yr oedran ymddeol arferol, sef 65 oed, neu
- eu cymryd yn gynharach (wrth droi'n 55 oed neu'n ddiweddarach, wedi'i ostwng oherwydd ei dalu'n gynnar), neu
- ei drosglwyddo i gynllun pensiwn arall sy'n gymwys.

Gelwir y gostyngiad yn eich buddion yn ddebyd pensiwn. Bydd swm y debyd pensiwn yn cynyddu yn unol â'r cynnydd yn y mynegai costau byw perthnasol rhwng y dyddiad y cyfrifwyd y debyd gyntaf a'r dyddiad y talwyd eich buddion. Pan ddaw eich buddion yn daladwy, didynnir swm y debyd pensiwn fel y'i hail-brisiwyd o'ch buddion ymddeol, yn seiliedig ar gyfarwyddyd Actiwari'r Llywodraeth.

Efallai y bydd modd ichi dalu cyfraniadau ychwanegol gwirfoddol neu gyfrannu ar wahân at gynllun pensiwn personol neu gynllun pensiwn cyfranddeiliaid i wneud iawn am y pensiwn a gollwch chi yn sgil Gorchymyn Rhannu Pensiwn.

Bydd yn ofynnol i chi ac/neu eich cyn-bartner dalu'r costau y mae'r gronfa bensiynau'n mynd iddynt wrth ddarparu gwybodaeth ac ufuddhau i unrhyw orchmynion llys yng nghyswllt eich pensiwn yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i Gynghorwyr.

Os yw eich buddion pensiwn yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i Gynghorwyr yn gostwng oherwydd Gorchymyn Rhannu Pensiwn, diystyrrir hynny wrth gyfrifo gwerth eich cynilion pensiwn yn y Cynllun at ddibenion y lwfans blynyddol yn y flwyddyn y daw'r Gorchymyn Rhannu Pensiwn i rym.

Cymorth â phroblemau pensiwn

At bwy allaf i droi am gymorth gyda chwestiwn neu gŵyn?

Os oes gennych chi unrhyw amheuan am eich hawliau pensiwn, unrhyw broblem neu gwestiwn ynglŷn â'ch aelodaeth neu'ch buddion yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i Gynghorwyr, cysylltwch â'ch cronfa bensiynau. Fe wnânt egluro neu ddatrys unrhyw gamddealltwriaeth neu amryfusedd mor chwim ac effeithlon â phosib.

Os byddwch chi'n dal yn anfodlon ag unrhyw benderfyniad ynglŷn â'r cynllun, bydd gennych hawl i fynnu adolygiad o'ch cwyn dan y Weithdrefn Datrys Anghydfodau Mewnol. Gallai nifer o gyrff rheoleiddio eraill eich cynorthwyo hefyd. Dyma'r gwahanol ffyrdd y gallwch ofyn am gymorth gyda phroblemau pensiwn:

Y Weithdrefn Ddatrys Anghydfod Mewnol

I ddechrau, dylech ysgrifennu at y sawl a benodwyd gan y cyngor i wneud y penderfyniad y dymunwch apelio yn ei erbyn. Mae'n rhaid ichi wneud hynny cyn pen chwe mis wedi'r

dyddiad a nodwyd yn yr hysbysiad o'r penderfyniad neu'r anwaith sy'n destun eich cwyn (neu gyfnod hwy os yw'r unigolyn penodedig o'r farn ei fod yn rhesymol).

Bydd yr unigolyn penodedig yn ystyried eich cwyn a'ch hysbysu o'u penderfyniad. Os byddwch chi'n dal yn anodlon â phenderfyniad yr unigolyn hwnnw (neu ddiffyg penderfyniad), gallwch, cyn pen chwe mis ar ôl dyddiad y penderfyniad, wneud cais i'r awdurdod gweinyddu i ailystyried y penderfyniad.

Rhag ichi fynd i drafferth yn ddiangen, byddem yn falch o'r cyfle i geisio datrys y mater sy'n peri anodlonrwydd ichi, cyn ichi fynd ymlaen i wneud cwyn ffurfiol.

Helpwr Arian

I gael gwybodaeth gyffredinol neu gyngor ynglŷn â'ch trefniadau pensiwn, cysylltwch â:

Ffôn: 0800 011 3797

Gwefan: <https://www.moneyhelper.org.uk/cy/pensions-and-retirement?source=tpas>

Yr Ombwdsmon Pensiynau

Mae gennych hawl i wneud cwyn i'r Ombwdsmon Pensiynau yn rhad ac am ddim. Mae'r Ombwdsmon Pensiynau'n ymdrin â chwynion ac anghydfodau sydd a wnelont â gweinyddu a/neu reoli pensiynau gwaith a chynlluniau pensiwn personol.

Os dymunwch wneud cwyn i'r Ombwdsmon Pensiynau, mae'n rhaid ichi wneud hynny cyn pen **tair blynedd ar ôl y digwyddiad(au) sy'n destun y gŵyn**. Neu, cyn pen **tair blynedd ar ôl y dyddiad y cawsoch wybod am y digwyddiad(au) gyntaf (neu pan ddylech fod wedi gwybod)**, os yw hynny'n ddiweddarach. Mae rhywfaint o le i ymestyn y terfynau amser hynny os yw'n briodol.

Dyma fanylion cyswllt yr Ombwdsmon Pensiynau:

Cyfeiriad: 10 South Colonnade, Canary Wharf, Llundain, E14 4PU

Ffôn: 0800 917 4487

E-bost: enquiries@pensions-ombudsman.org.uk

Gwefan: <https://www.pensions-ombudsman.org.uk/cymraeg>

Y Rheoleiddiwr Pensiynau

Y corff hwn sy'n rheoleiddio cynlluniau pensiwn gwaith. Mae gan y Rheoleiddiwr Pensiynau bwerau i amddiffyn aelodau cynlluniau pensiwn gwaith a chymryd camau adferol pan mae angen. Mewn achosion eithafol, gall y rheoleiddiwr godi dirwyon ar ymddiriedolwyr neu gyflogwyr a diswyddo ymddiriedolwyr cynlluniau pensiwn.

Dyma fanylion cyswllt y Rheoleiddiwr Pensiynau:

Ffôn: 0345 600 0707 / 0345 600 7060

Gwefan: www.thepensionsregulator.gov.uk/cy

Sut alla i olrhain hen fuddiannau pensiwn?

Mae'r Gwasanaeth Orlhain Pensiynau'n cadw manylion cynlluniau pensiwn, gan gynnwys y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i Gynghorwyr, ynghyd â'r cyfeiriadau cyswllt perthnasol.

Mae'n galluogi cyn-aelodau i olrhain eu hawliau pensiwn (iddynt hwy a'u goroeswyr) wedi iddynt golli cysylltiad â'r cynllun yn y gorffennol. Mae'n rhaid i bob cynllun pensiwn gwaith a phersonol gofrestru â'r gwasanaeth os yw'r aelodau'n dal i gyfrannu i'r cynllun neu fod pobl yn dal i ddisgwyl cael buddion o'r cynllun.

Ffôn: 0800 731 0175

Gwefan: <https://www.gov.uk/dod-o-hyd-i-fanylion-cyswllt-pensiwn>

Cofiwch roi gwybod i'ch darparwyr pensiwn os ydych chi'n symud i fyw neu fod unrhyw fanylion cyswllt eraill yn newid.

Mwy o wybodaeth ac ymwadiad

Mae'r wybodaeth yn y canllaw hwn yn seiliedig ar reolau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ym 1997 a chyfreithiau perthnasol eraill. Canllaw i gynghorwyr yng Nghymru yw hwn ac mae'n gyson â darpariaethau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i Gynghorwyr a'r cyfreithiau sydd mewn grym ar adeg ei gyhoeddi ym **mis Ebrill 2025**. Gall y Llywodraeth ddiwygio'r cyfreithiau sydd mewn grym a hefyd, ar ôl ymgynghori â buddgyfranogwyr, diwygio'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn y dyfodol.

Ni all y canllaw byr hwn gynnwys yr holl amgylchiadau personol all godi nac ychwaith yr hawliau hynny nad ydynt ond yn berthnasol i nifer fechan o weithwyr, er enghraifft:

- yr aelodau hynny y mae eu buddion pensiwn yn cynyddu mwy na'r lwfans blynyddol cyfredol o £60,000 mewn un flwyddyn dreth, neu
- yr aelodau hynny sy'n atebol i dalu tâl treth arbennig ar gyfer y lwfans blynyddol, neu
- yr aelodau hynny sydd â hawliau pensiwn wedi'u gwarchod, neu
- yr aelodau hynny y mae eu pensiynau'n destun Gorchmynion Rhannu Pensiwn yn dilyn ysgariad neu ddiddymu partneriaeth sifil.

Os yw'ch buddion pensiwn chi'n destun Gorchmyn Rhannu Pensiwn y mae Llys wedi'i wneud yn dilyn ysgariad neu ddiddymu partneriaeth sifil, bydd eich buddion yn gostwng yn unol â'r Gorchmyn Llys neu'r cytundeb a wnaed.

Os bydd unrhyw anghydfod ynghylch eich buddion pensiwn, y ddeddfwriaeth briodol fydd drechaf. Nid yw'r canllaw hwn yn cyflwyno unrhyw hawliau contract na statudol ac fe'i darperir er gwybodaeth yn unig.

Cyngor Sir y Fflint yw awdurdod gweinyddu Cronfa Bensiynau Clwyd a defnyddiwn eich data personol yn unol â'r ddeddfwriaeth Diogelu Data er mwyn darparu gwasanaeth gweinyddu pensiwn i chi. I gael ychwaneg o wybodaeth am sut y defnyddiwn eich data, gyda phwy rydym yn eu rhannu a'r hawliau sydd gennych dros eich gwybodaeth, darllenwch yr hysbysiad preifatrwydd ar wefan y Gronfa Bensiynau:

<https://cronfabensiynaclwyd.org.uk/cy/Hysbysiad-Preifatrwydd/cartref.aspx>

Dyma ble i gael gwybodaeth fanylach am y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i Gynghorwyr:

Ffôn: 01352 702875

E-bost: pensiynau@siryfflint.gov.uk

Cyfeiriad: Cronfa Bensiynau Clwyd, Tŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewloe, Sir y Fflint, CH5 3FF

Gwefan: <https://cronfabensiynaclwyd.org.uk>



cronfabensiynaclwyd.org.uk

Cronfa Bensiynau Clwyd, Tŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewloe, Sir y Fflint, CH5 3FF

Cyngor Sir y Fflint yw awdurdod gweinyddu Cronfa Bensiynau Clwyd ac rydym ni'n defnyddio eich data personol yn unol â'r ddeddfwriaeth Diogelu Data i ddarparu gwasanaeth gweinyddu pensiynau i chi. I gael rhagor o wybodaeth am sut rydym yn defnyddio eich data, gyda phwy rydym yn ei rannu, a'r hawliau sydd gennych mewn perthynas â'ch data, darllenwch yr Hysbysiad Preifatrwydd ar ein gwefan.